COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY SKYPE FOR BUSINESS DYDD IAU, 26 TACHWEDD 2020, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| NA Burnett | N Clarke | HJ David | DK Edwards |
| J Gebbie | T Giffard | CA Green | RM James |
| D Patel | CE Smith | HM Williams | RE Young |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |

213. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

214. DERBYN Y COFNODION

PENDERFYNWYD: I dderbyn Cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Cabinet Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 4 Awst 2020, fel cofnod cywir a manwl gywir.

215. CYMORTH I BLANT BREGUS YN YSTOD COVID 19

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi trosolwg i Aelodau o'r gefnogaeth a'r cynllunio parhaus ar gyfer ein plant mwyaf bregus yn ystod Covid-19.

Dechreuodd ei hadroddiad drwy dalu teyrnged i'r plant bregus a'u teuluoedd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am y ffordd maent wedi ymateb yn gadarnhaol mewn cyfnod sydd hyd heddiw yn hynod ddwys a thrallodus ar brydiau a blwyddyn anodd iddynt yn sgil y pandemig.

Teimlodd fod yr adroddiad yn adlewyrchu asesiad cynhwysfawr o sut weithiodd yr Awdurdod fel 'Un Cyngor' pan addasodd yn gyflym iawn i fygythiad y feirws fis Mawrth diwethaf. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, parhaodd y Gwasanaethau Cymdeithasol a'i bartneriaid i ddiogelu'r mwyaf bregus a'u teuluoedd, drwy ddulliau digidol newydd yn bennaf, gan nad oedd cyswllt wyneb yn wyneb yn bosibl yn y rhan fwyaf o achosion yn sgil Covid-19.

Er bod gofyn i'r rhan fwyaf o staff sy'n cefnogi cleientiaid i weithio gartref fel y mwyafrif o staff arall y Cyngor, parhaodd y tîm MASH i weithredu gyda thîm llai o'r swyddfa yn Ravens Court, Pen-y-bont ar Ogwr.

Ym mharagraff 3.3 yr adroddiad, ar ffurf tabl, ceir data ar weithgareddau Gofal Cymdeithasol Plant yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2020. Mae'r data a

ddengys yn y rhan hon o'r adroddiad yn rhoi darlun cadarnhaol o ran y lefelau uchel o berfformiad a gafodd eu cynnal yn ystod y cyfnod clo, o ran asesiadau, ymweliadau â phlant (o bell yn bennaf) a chynnal Cynadleddau Gwarchod Plant o fewn yr amserlenni statudol gofynnol.

Fel y cyfeirir ato uchod, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant bod y tîm MASH ynghyd â staff ymholiadau cyffredinol sy'n ateb ymholiadau a galwadau yn parhau i weithio yn y swyddfa. Cafwyd cyfarfodydd o bell gyda phlant a'u teuluoedd etc., ac er eu bod yn cyflawni eu diben, roeddynt yn fwy heriol na rhyngweithiadau wyneb yn wyneb fel y byddai'n digwydd dan amgylchiadau arferol cyn Covid.

Mae paragraff 3.6 yr adroddiad yn amlinellu'r mathau o gefnogaeth sydd mewn lle i ddysgwyr bregus drwy Dimau Addysg a Chymorth i Deuluoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, er gwybodaeth Aelodau.

Atodwyd fersiwn ddiweddaraf y Cynllun Gwasanaeth Diogelu Iawn i Atodiad 1 yr adroddiad.

Yng ngoleuni Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru y byddai "Cyfnod Atal Byr" neu "Atal Byr" yn dod i rym rhwng 6pm, dydd Gwener 23 Hydref 2020 hyd at ddydd Llun 9 Tachwedd 2020, gwnaed y penderfyniad i adolygu a diweddaru Cynllun y Gwasanaethau Plant yn unol â'r Canllawiau a oedd wedi'u cyhoeddi. Gweithredwyd ychwanegiad yn amlinellu newidiadau dros dro yn y dulliau gweithio ar gyfer y cyfnod penodol hwn a gellir dod o hyd iddo fel Atodiad (i'r adroddiad).

Yn ogystal â'r gwasanaethau/swyddogaethau statudol yr ymdrinnir â nhw yn y Cynllun Gwasanaeth, ymatebodd y Cyngor i'r angen i ddarparu cymorth i'n plant a phobl ifanc mwyaf bregus yn ystod gwyliau'r ysgol a sefydlwyd darpariaeth unigryw i gyflawni hyn.

Llwyddodd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i wneud defnydd da o gyllid Llywodraeth Cymru i ddarparu gweithgareddau a chymorth yn ystod yr haf, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Darparwyd 20 diwrnod o weithgareddau, gan gefnogi 39 o bobl ifanc a oedd wedi'u cofrestru neu eu dosbarthu'n fregus, a gyda 259 sesiwn wedi'u cyflwyno i bobl ifanc dros y cyfnod o bedair wythnos.

Yn ogystal, dywedodd y cefnogwyd rhaglen i bobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol a fyddai fel arfer wedi manteisio ar y rhaglen seibiant Dyddiau Darganfod yn ystod yr haf.

Cymeradwyodd y Cadeirydd yr adroddiad ac roedd yn ymwybodol o'r gwaith achos yr oedd Swyddogion wedi bod yn ymgymryd ag o ers dechrau'r cyfnod clo a'r ymholiadau ac atgyweiriadau yr oedd Aelodau wedi ymdrin â nhw hefyd, yn enwedig o ran pryderon dros ddiffyg cyswllt rhwng asiantaethau cefnogi statudol a LAC. Wedi dweud hynny, mae'r adroddiad yn nodi sut gellir tawelu'r pryderon hyn nawr a bod cefnogaeth wedi'i chynnal ar gyfer ein mwyaf bregus yn y gymdeithas, er yn wahanol i'r gorffennol, yng ngoleuni'r coronafeirws.

Gofynnodd Aelod sut oedd Covid-19 a'i gyfyngiadau wedi effeithio ar weithgareddau bywyd bob dydd LAC etc., h.y. graddfa'r ymyriadau ar eu trefn arferol fel rhan o fywyd bob dydd.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant bod cefnogaeth i deuluoedd Maeth a Gofal Preswyl wedi parhau yn yr un modd â chyn Covid ac ar wahân i'r cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol ac unrhyw ymyriadau i addysg, roedd y drefn arferol yn parhau. Serch

hynny, cafwyd rhai cyfyngiadau yr oedd pawb arall yn eu hwynebu hefyd, megis ymweliadau â'r deintydd a meddyg teulu lle'r oedd angen gwisgo cyfarpar diogelu personol ar gyfer unrhyw driniaeth fewnwthiol.

Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn falch o hysbysu'r Pwyllgor bod adolygiadau statudol ar gyfer LAC wedi'u cynnal ers diwedd mis Mawrth ac o fewn yr amserlenni perthnasol hefyd.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Aelodau yn nodi'r adroddiad.

216. AROLYGIAETH GOFAL CYMRU (CIW - CSSIW GYNT) AROLWG O GARTREFI GOFAL PRESWYL PLANT

Cyflwynodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant adroddiad, er mwyn ei rannu â Phwyllgor y Cabinet, adroddiadau a Chynlluniau Gweithredu cysylltiedig yn dilyn arolygon CIW, ynghylch Maple Tree House (mis Medi 2019, mis Chwefror 2020 a mis Awst 2020) a Harwood House (mis Gorffennaf 2019).

Drwy beth wybodaeth gefndirol, dywedodd wrth Aelodau mai Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) sy'n gyfrifol am arolygu pob gwasanaeth gofal a chymorth rheoledig, gan gynnwys Cartrefi Plant, yng Nghymru. Mae arolygiadau yn cynnwys pedwar cam allweddol: 1) cynllunio a pharatoi arolygon, 2) ymweld a chynnal yr arolwg, 3) adborth, a 4) adrodd. Yn ystod y broses, byddai arolygwyr yn gwneud beirniadaethau ynglŷn â pha mor dda mae'r gwasanaeth yn perfformio dan bedair thema graidd: 1) llesiant; 2) gofal a chefnogaeth; 3) amgylchedd; a 4) arweinyddiaeth a rheolaeth.

Yn achos cartrefi plant, byddai CIW yn gwneud arolygon blynyddol fel rhan o'u rhaglen dreigl. Roedd dau brif fath o arolygon, sef Cyflawn a Chanolbwyntiedig, ac eglurir yr hyn sy'n cael ei gynnwys mewn perthynas â phob un o'r rhain ym mharagraff 3.2 yr adroddiad.

Yna mae paragraff(au) 4 yr adroddiad yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau arolygon CIW o bob un o'r safleoedd dan sylw, a'r Adroddiadau Arolygon Cyflawn wedi'u cynnwys fel Atodiadau i'r adroddiad eglurhaol.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaeth Gofal Plant yr Aelodau at baragraff 4.6 yr adroddiad, lle'r oedd y CIW yn cydnabod bod rhai gwelliannau a restrir yma wedi'u cyflawni yn Maple Tree House, yn dilyn arolygiad CIW pellach o'r Cartref hwn.

Yna cyfeiriodd at adran yr adroddiad gyda'r pennawd argymhellion a chamau nesaf.

Datblygwyd Cynlluniau Gweithredu i ymateb i'r argymhellion a wnaed gan CIW o ran Cartrefi ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiadau 5 a 6 yr adroddiad. Cafodd y rhain eu monitro gan y Rheolwr Grŵp - Tîm Gwasanaethau Lleoliadau a Darparu, yn ystod goruchwyliaeth â'r Rheolwr/Rheolwyr Preswyl a'r Unigolyn Cyfrifol drwy eu hymweliadau rheolaidd. Fel y nodir yn yr adroddiad, nid oedd unrhyw gamau gweithredu yn weddill ar gyfer Harwood House ac roedd cynllun gweithredu cynhwysfawr a phecyn cymorth yn hybu'r newidiadau a'r gwelliannau a oedd yn ofynnol yn Maple Tree House.

Dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant cyn yr ysgrifennwyd yr adroddiad gerbron yr Aelodau, y cynhaliwyd arolygiad dirybudd gan CIW yn Maple House a dywedodd yr Arolygwr wrth y Gwasanaethau Cymdeithasol y gwnaethpwyd cynnydd enfawr ers y cynhaliwyd yr arolwg gwreiddiol. Ers y cynhaliwyd hwn, gwnaeth y Panel Gwella a Gorfodi gwrdd a phenderfynu codi'r cyfyngiadau yr oeddynt wedi'u rhoi mewn lle yn flaenorol yn Maple House (oherwydd bod y gwelliannau wedi'u cyflawni). Penderfynodd y Panel i beidio â gweithredu ymhellach oherwydd y cyflawnwyd materion diffyg cydymffurfio blaenorol. Ers hynny, cyflwynodd yr Arolygwr CIW adroddiad

ysgrifenedig, yn dilyn ei arolygiad diweddaraf, yn cydnabod y newidiadau cadarnhaol a oedd wedi'u rhoi mewn lle gan gadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud yn holl feysydd y cartref, heb law am nifer fechan o feysydd lle'r oedd gwaith yn mynd rhagddo.

Croesawodd Aelodau y diweddariad hwn a gofynnodd yr Arweinydd a oedd yr holl bwyntiau gweithredu wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu perthnasol bellach wedi'u cyflawni.

Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Lleoliadau a Darparu bod y rhan fwyaf o'r rhain wedi'u cadarnhau a'u cwblhau, er bod rhai meysydd yn dal i fod lle'r oedd gwaith yn parhau. Ychwanegodd fod y pedwar cartref bellach yn cydymffurfio'n llwyr o ran rheoliadau a nodwyd gan y CIW. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau y byddai'r safonau hyn yn cael eu cynnal.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at baragraff 4.1.3 yr adroddiad, lle amlinellwyd bod cynlluniau am gyfleuster newydd ar gyn-safle Ysgol Gynradd Brynmenyn. Gofynnodd a yw'r cyfleuster newydd hwn ar y trywydd cywir i'w agor ar y dyddiad targed, a beth fyddai buddion y cyfleuster hwn mewn cymhariaeth â'r un blaenorol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gofal Plant bod caniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo bellach ar gyfer y cyfleuster newydd a'i fod ar y trywydd cywir i agor blwyddyn nesaf. Ychwanegodd y byddai hwn mewn lleoliad gwell, mwy rhannol-wledig, gyda man awyr agored gwell, a fyddai'n cynorthwyo llesiant emosiynol a chorfforol plant. Yn ogystal, mae'r adeilad yn fwy na'r cyfleuster presennol yn Maple House a byddai gwely brys ychwanegol yno, sy'n golygu y bydd tri gwely, a dim ond dau sydd yn y cyfleuster presennol.

PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor y Cabinet yn derbyn a chymeradwyo'r Cynlluniau Gweithredu wedi'u diweddaru, fel maent wedi'u hatodi i'r adroddiad.

217. CYMERADWYO'R DATGANIADAU O FWRIAD AR GYFER GWASANAETHAU GOFAL PRESWYL PLANT

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad a'i ddiben oedd darparu'r datganiadau o fwriad diwygiedig i Aelodau ar gyfer y ddarpariaeth gwasanaethau preswyl plant a phobl ifanc gyfredol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n ofyniad dan gyfansoddiad y Cyngor i gyflwyno'r rhain i'r Pwyllgor Rhianta Corfforaethol eu cymeradwyo.

Dywedodd wrth Aelodau bod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr bedwar cartref preswyl i blant ar hyn o bryd sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc rhwng 0-19 oed, sef:-

- Maple Tree House;
- Sunny Bank;
- Bakers Way; a
- Tŷ Harwood

Daeth Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) i rym ar 2 Ebrill 2018. Diben y Ddeddf oedd adeiladu ar lwyddiant rheoliad yng Nghymru ac adlewyrchu byd newidiol gofal cymdeithasol. Mae'n rhoi ansawdd gwasanaethau a gwelliant wrth galon y cynllun rheoleiddio ac yn cryfhau diogelwch i'r rheiny sydd ei angen. Byddai rheoliad o'r fath yn mynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth â lleiafswm y safonau, a chanolbwyntio mwy ar ansawdd gwasanaethau a'r effaith maent yn ei chael ar y bobl sy'n eu derbyn.

Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Lleoliadau a Darparu, yn nhymor yr hydref 2018, y cofrestrwyd holl wasanaethau cymdeithasol y Cyngor i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth newydd. Mae gan bob darpariaeth gwasanaeth mewnol ddatganiad o fwriad ei hun a chafodd y rhain eu hatodi yn Atodiadau 1 - 4 yr adroddiad.

Dywedodd wrth y Pwyllgor mai o ran y safleoedd y'u crybwyllwyd uchod, roedd gan Sunnybank a Maple Tree House yr un rheolwr.

Yn unol â'r Rheoliadau, cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Lleoliadau a Darparu, bod y Datganiadau o Fwriad bellach wedi bod yn destun eu hadolygiad blynyddol ac mae'r newidiadau i'r datganiadau wedi'u manylu ym mharagraff 4.4 yr adroddiad. Nawr mae'r Datganiadau diwygiedig yn adlewyrchu lefel o gysondeb ar draws y 4 Cartref, rhywbeth na chyflawnwyd yn y gorffennol, ychwanegodd.

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod yr adroddiad yn amserol iawn ac yn ddarlleniad difyr. Ynghyd â'r Datganiadau o Fwriad, rhoddwyd uchelgeisiau ar gyfer ein Cartrefi Gofal yn gadarn mewn lle, gyda phersbectif clir bellach o ran anelu am safon uchel yn y cyfleusterau hyn mae angen i'r Gyfarwyddiaeth weithio tuag ati.

O ran y Datganiadau o Ddiben diwygiedig, gofynnodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a oedd y staff yn y Cartrefi Gofal wedi cael gwybod am y rhain, yn ogystal ag a oedd unrhyw newidiadau i'w telerau ac amodau o ganlyniad iddynt yn cael eu cyflwyno.

Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Lleoliadau a Darparu bod bob un o'r Rheolwyr Preswyl yn y Cartrefi wedi cadarnhau bod unrhyw newidiadau o'r fath wedi'u rhoi mewn lle gyda'r staff sy'n gweithio yno. O ran Maple Tree House a'r strwythur staffio diwygiedig yno, cafwyd ymgynghoriad â gweithwyr yno ynglŷn â hyn.

Gofynnodd yr Arweinydd a oedd ein plant a phobl ifanc wedi cyfrannu at y Datganiadau o Fwriad diwygiedig er mwyn datblygu gwasanaeth, yn ogystal â chael peth gydnabyddiaeth bod 'eu lleisiau yn cael eu clywed.'

Cadarnhaodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant mai dyma oedd yr achos. Yna rhoddodd rai enghreifftiau o sut gyfrannodd plant a phobl ifanc a sut y gwrandawyd arnynt gan y gwasanaeth, er budd Aelodau. Ychwanegodd fod eu cyfraniad wedi'i gofrestru yn eu cofnodion, a oedd hefyd yn ffurfio rhan o unrhyw adroddiadau i'r CIW.

PENDERFYNWYD: Y byddai Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r Datganiad o Fwriad ar gyfer pob un o'r 4 ddarpariaeth gwasanaeth preswyl.

218. DATGANIADAU O FWRIAD DIWYGIEDIG AR GYFER GWASANAETHAU MAETHU PLANT

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Lleoliadau a Darparu adroddiad, er mwyn darparu Aelodau â'r Datganiad o Fwriad diwygiedig ar gyfer y Gwasanaeth Maethu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n ofyniad dan Gyfansoddiad y Cyngor i gyflwyno'r rhain i'r Pwyllgor Rhianta Corfforaethol eu cymeradwyo.

Eglurodd fod y Gwasanaeth Maethu yn darparu ystod o ofal maeth i blant a phobl ifanc y gofalir amdanynt gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r gwasanaeth yn cynnig y mathau o ofal teulu i blant a phobl ifanc o'u genedigaeth i 18 mlwydd oed, fel y nodwyd ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.

Daeth darpariaethau perthnasol Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) i rym ar 2 Ebrill 2018. Diben y Ddeddf oedd adeiladu ar lwyddiant rheoliad yng Nghymru ac adlewyrchu byd newidiol gofal cymdeithasol. Mae'n rhoi ansawdd gwasanaethau a gwelliant wrth galon y cynllun rheoleiddio ac yn cryfhau diogelwch i'r rheiny sydd ei angen. Bydd rheoliad yn mynd y tu hwnt i gydymffurfio â lleiafswm y safonau, a chanolbwyntio mwy ar ansawdd gwasanaethau a'r effaith maent yn ei chael ar y bobl sy'n eu derbyn.

Daeth Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018 i rym ar 29 Ebrill 2019 ac mae'n nodi Gofynion yr Awdurdod Lleol i baratoi Datganiad o Fwriad a'i gadw dan adolygiad rheolaidd, yn flynyddol.

Yn unol â'r canllawiau i gasglu Datganiad o Fwriad a gafodd eu darparu dan y Ddeddf uchod gan Arolygiaeth Gofal Cymru (Ebrill 2019), paratôdd Gwasanaeth Maethu Pen-y-bont ar Ogwr ei Ddatganiad o Fwriad ac mae hwn wedi'i gynnwys fel Atodiad 1 i'r adroddiad.

Fis Ebrill 2020, cafodd y Datganiad o Fwriad ei adolygiad blynyddol ac mae'r newidiadau i'r datganiadau wedi'u manylu ym mharagraff 4.4 yr adroddiad.

Yna rhannodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Lleoliadau a Darparu rai o'r pwyntiau amlwg a nodweddion allweddol y Datganiad o Fwriad Diwygiedig gydag Aelodau.

Gofynnodd yr Arweinydd a ellir rhoi rhagor o adborth ar effaith Covid-19 ar Ofalwyr Maeth, gan fod y rhain yn darparu gofal i'r rhan fwyaf o blant yr oeddem yn eu cefnogi yn eu cartrefi eu hunain. Yn ogystal, ychwanegodd a oes angen adlewyrchu unrhyw fecanweithiau cefnogi gwahanol a weithredwyd ar gyfer y plant hyn ers i'r pandemig ddechrau yn Natganiad o Fwriad y Gwasanaeth Maethu.

Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Lleoliadau a Darparu bod y Gofalwyr Maeth yn gwneud gwaith anhygoel yn enwedig ers dechrau'r pandemig.

Maent wedi dangos lefel uchel iawn o wytnwch yn cefnogi eu plant yn ystod y cyfnod anoddaf y gellir ei ddychmygu, yn ogystal â pharhau i orfod ymdrin â'u pryderon eraill. Ers mis Mawrth diwethaf mae staff Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn monitro sut mae Gofalwyr Maeth a Phlant Maeth yn ymdopi yn wythnosol o leiaf drwy gyswllt dros y ffôn neu e-bost, etc. yn bennaf. Yn ogystal, datblygodd yr adran statws coch, melyn a gwyrdd, er mwyn categoreiddio'r lefelau gwahanol o gefnogaeth yr oedd eu hangen ar y teuluoedd hyn yn ystod yr argyfwng cyfredol, rhag ofn bod angen unrhyw ymweliadau cartref brys ar gyfer lleoliadau â blaenoriaeth gan Weithwyr Cymdeithasol, ar sail anghenraid.

Ychwanegodd y cyhoeddwyd cylchlythyrau wythnosol i deuluoedd Gofalwyr Maeth, yn tynnu sylw at ddiweddariadau a newidiadau i'r ffordd yr oedd gwasanaethau a oedd ar gael yn cael eu cyflwyno, yn ogystal â rhoi enghreifftiau iddynt o syniadau am weithgareddau y gellid eu gwneud pan oedd teuluoedd yn dioddef o unigedd yn ystod cyfnodau clo llawn.

PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r Datganiad o Fwriad diwygiedig ar gyfer Gwasanaeth Maethu Pen-y-bont ar Ogwr.

219. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:00